

SOSIALAETH: GWEITHGAREDDAU

Cymhwyso syniadau sosialaidd (A01, A02)

Isod, amlinellir cyfres o sefyllfaoedd gwleidyddol gwahanol. Darllenwch y disgrifiadau yn ofalus ac yna ystyriwch sut y byddai unigolion sy'n arddel sosialaeth yn dewis ymateb yn y sefyllfaoedd gwahanol hyn. Cofiwch hefyd ystyried os byddai Marcsywyr a Democratiaid Cymdeithasol yn debygol o gytuno neu anghytuno ar sut ddylid ymateb. Nodwch resymau i egluro eich casgliadau yn achos y gwahanol sefyllfaoedd a cheisiwch gyfeirio'n ôl at rai o elfennau allweddol Ceidwadaeth (e.e. cymuned, cydweithrediad, cydraddoldeb, dosbarth a rheolaeth gyffredin) wrth wneud hyn.

Llywodraeth sy'n penderfynu preifateiddio'r gwasanaeth rheilffyrdd gan ddadlau y bydd rhoi cyfle i wahanol ddarparwyr preifat gystadlu am y cytundeb yn arwain at godi safonau a gostwng prisiau.

Llywodraeth sy'n datgan y bydd yn rhewi gwariant ar fudd-daliadau er mwyn medru torri trethi yn y gobaith y bydd hyn yn sbarduno twf economaidd.

Clymblaid eang o undebau llafur yn dod ynghyd i drefnu streic gyffredinol fel rhan o ymgais i danseilio neu ddymchwel y llywodraeth.

Llywodraeth sy'n cyflwyno deddfwriaeth er mwyn gwladoli cyfres o sectorau economaidd pwysig - e.e. trydan, glo a dur - er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn y meysydd hyn yn dod o dan reolaeth gyhoeddus.